## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 29 Ebrill, 2019

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 2 Mai, 2019. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Gwener, 10 Mai, 2019. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Llun, 13 Mai, 2019.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Eric Jones, Bryan Owen, Shaun Redmond

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr R. Meirion Jones a Carwyn Jones

(10:00 y. b. tan 10:15 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2019 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion – Panel Rhiant Corfforaethol**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2019.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Mai i Ragfyr 2019 fel y'i cyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach – Adroddiad Blynyddol**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2017/18 fel y'u cyflwynwyd yn Atodiad A i'r adroddiad.**<br>• **Bod adroddiad ar gynnydd trafodaethau ynglyn ag ail-strwythuro Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ymhen 6 mis.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Statudol ar Ostwng yr Oedran Mynediad ar gyfer Ysgol Henblas**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo symud ymlaen gyda'r drefn drwy gyhoeddi rhybudd statudol a chasglu gwrthwynebiadau.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda'r broses o ostwng oed mynediad Ysgol Henblas** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Moderneiddio Ysgolion - Addysg Ol-16**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi cynnwys yr adroddiad ar y broses ymgysylltu ar ddyfodol y ddarpariaeth addysg uwchradd ym Môn.**<br>• **Awdurdodi Swyddogion i gael cyfnod i asesu'r opsiynau o ran dyfodol y ddarpariaeth addysg uwchradd yn y sir er mwyn paratoi a gwerthuso opsiynau posibl ar y ffordd ymlaen erbyn diwedd 2019.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Addysg yng nghyswllt y ddarpariaeth ôl-16.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |